

Enw'r Ddogfen: Cyllid a Buddsoddi Moesegol

Cod y Ddogfen: HSSEIF01

Adran / Department: Iechyd, Diogelwch a Datblygu Cynaliadwy
Health, Safety and Sustainability

Awdur y Ddogfen /
Document Author: Chris Long

Teitl Swydd / Job Title: Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Datblygu Cynaliadwy
Head of Health, Safety and Sustainability

Dyddiad Cymeradwyo /
Date of Approval: 09/12/2021

Dyddiad Adolygu /
Review Date: 09/12/2024

1. Pwrpas ac Amcanion:

Mae Coleg Penybont wedi ymuno â sefydliadau ledled y byd i ddatgan argyfwng hinsoddol ac ecolegol. Rydym wedi llofnodi'r Cytgord Nodau Datblygu Cynaliadwy, cyhoeddi ein targed carbon sero, ac wedi cwblhau, ac yn parhau i ddatblygu, ein Cerdyn Cadw Sgôr Cynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd yn hollbwysig yng Ngholeg Penybont, ac mae'r polisi hwn yn brawf o'n hymrwymiad i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau ariannol mewn modd cyfrifol, gydag uniondeb, diffuantrwydd a thryloywder.

- 1.1 Pwrpas y ddogfen hon yw sicrhau y rhoddir sylw dyledus i faterion cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol wrth wneud unrhyw fuddsoddiadau ariannol.
- 1.2 Nod y ddogfen hon yw lleihau'r effeithiau negyddol sy'n codi o ganlyniad i'n penderfyniadau prynu neu ariannu, a chael gwared â nhw yn gyfan gwbl os oes modd gwneud hynny. Ar ben hynny, byddwn yn ymdrechu i wella effeithiau positif ar faterion cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol pan fydd y cyfle i wneud hynny yn codi.

2. Manylion y Ddogfen:

Wrth wneud penderfyniadau am gyllid a buddsoddi, byddwn yn cymryd camau rhesymol i nodi a gweithredu ynghylch y canlynol, lle bo modd:

1. Gwahardd caffael nwyddau a gwasanaethau oddi wrth fusnesau sy'n ymwneud â dosbarthu cynhyrchion tybaco.
2. Gwahardd caffael nwyddau a gwasanaethau oddi wrth fusnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu arfau a systemau arfau, gan gynnwys bomiau cawod a ffrwydrion tir gwrth-bersonél.
3. Gwahardd caffael nwyddau a gwasanaethau oddi wrth fusnesau sydd wedi cyflawni troseddau hawliau dynol, gan gynnwys masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, neu os oes tystiolaeth fod y busnes yn cyfrannu at sefydliadoli tlodi trwy arferion masnachu gwahaniaethol, neu wahaniaethu ar sail hil neu ryw.
4. Gwahardd caffael nwyddau a gwasanaethau oddi wrth fusnesau sy'n profi ar anifeiliaid am resymau cosmetig yn unig.
5. Gwahardd caffael nwyddau a gwasanaethau oddi wrth fusnesau sydd wedi cael eu heuogfarnu o, neu sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at, ddifrod amgylcheddol penodol.

Yn benodol, byddwn yn:

1. Hyrwyddo hawliau dynol, gan gynnwys cydraddoldeb o ran rhyw, hil a rhywioldeb, heb fod yn gyfyngedig i hynny, gan gynnwys fel rhan o gyfleoedd dysgu ac addysgu.
2. Hyrwyddo moeseg busnes dda ac arferion cyflogi da, gan gynnwys fel rhan o gyfleoedd dysgu ac addysgu.

3. Diogelu'r amgylchedd, yr hinsawdd a bioamrywiaeth ar lefel leol a byd-eang, gan gynnwys fel rhan o gyfleoedd dysgu ac addysgu.
4. Darparu a chaffael adnoddau a gwasanaethau mewn modd cynaliadwy.
5. Ymgymryd â moeseg busnes dda ac arferion cyflogi da.
6. Ymgymryd â buddsoddi cymunedol a chaffael adnoddau a gwasanaethau lleol lle bo modd gwneud hynny.
7. Cynnal cyflenwad trydanol sydd yn 100% adnewyddadwy.
8. Buddsoddi mewn systemau gwresogi di-danwydd ffosil fel rhan o'r strategaeth ar gyfer yr hinsawdd.
9. Annog unrhyw bobl sydd am herio ein harferion ar sail buddsoddi moesegol i leisio eu pryderon.
10. Gweithio gyda sefydliadau moesegol a rhannu arferion da.

3. Cyfrifoldebau:

- 3.1 Mae'r Uwch Dîm Arwain yn gyfrifol am gymeradwyo'r ddogfen hon ac am dynnu sylw Grŵp Gweithredu'r Coleg ati.
- 3.2 Mae'r Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd yn gyfrifol am gynnal y ddogfen hon ac am ddatblygu'r weithdrefn caffaeliad cynaliadwy a'r anghenion hyfforddi cysylltiedig ar y cyd â'r Uwch Gyfrifydd a'r Swyddog Caffael.
- 3.3 Mae'r Rheolwr Marchnata yn gyfrifol am sicrhau bod y prif bwyntiau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Coleg.
- 3.4 Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd yn gyfrifol am archwilio'r ddogfen hon.

4. Dogfennau Cysylltiedig:

SPS01 Datganiad Polisi Cynaliadwyedd
Gweithdrefnau Ariannol
Gweithdrefn Caffaeliad Cynaliadwy

5. Adolygiad y Ddogfen:

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu o leiaf unwaith bob dwy flynedd, neu ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol iddi.

ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Buddsoddi a Chyllid Moesegol					
Perchennog y Polisi	Chris Long					
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Sicrhau y rhoddir sylw dyledus i faterion cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol wrth wneud unrhyw fuddsoddiadau ariannol.					
Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?	Dysgwyr	X	Staff	X	Y Cyhoedd	X

Nodwedd gydraddoldeb	Effaith gadarn-haol	Effaith niwtral	Effaith negyddol	Rheswm/sylw
Oedran	X			Pwrpas y ddogfen hon yw cael effaith bositif ar bob rhan o'r gymdeithas, ar lefel leol a byd-eang.
Anabledd	X			
Ailbennu rhywedd	X			
Priodas a phartneriaeth sifil	X			
Beichiogrwyd a mamolaeth	X			
Hil	X			
Crefydd neu gred	X			
Rhyw	X			
Cyfeiriadedd rhywiol	X			

Dyddiad y cwblhawyd: 16/03/2021

Llofnodwyd gan y Rheolwr a gwblhaodd yr asesiad: *Chris Long*

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Buddsoddi a Chyllid Moesegol					
Perchennog y Polisi	Chris Long					
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Sicrhau y rhoddir sylw dyledus i faterion cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol wrth wneud unrhyw fuddsoddiadau ariannol.					
Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?	Dysgwyr	X	Staff	X	Y Cyhoedd	X

Safonau'r Gymraeg

Rhif	Math	Safon	Cadarnhaol (gallai fod o fudd)	Negyddol (gallai effeithio)	Dim Effaith
94	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar — (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	le	X	X

Cynllun Gweithredu

Dylai camau gweithredu ddangos y camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur Llwyddiant <i>(sut y byddwn yn gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r camau gweithredu)</i>
Angen cyfieithiad	Tomos	Ar ôl i'r fersiwn Saesneg gael ei chymeradwyo	Dogfen ar gael yn Gymraeg

Dyddiad Cwblhau'r Aseiad: 16/03/2021